# Cylchlythyr Parc Natur Penglais Newsletter

**Rhif 52 Tachwedd 2017**

**Newidiadau i'r Pwyllgor** Ymddiswyddodd Margaret Bateman o'r Pwyllgor ym mis Tachwedd 2016. Diolchwyd iddi hi am ei chefnogaeth dros nifer o flynyddoedd.

Mae'r Pwyllgor wastad yn barod i groesawu aelodau newydd. Mae'r Grŵp Cefnogaeth yn cynorthwyo'r Cyngor gyda materion ynghylch redeg PNP ac mae'n cynnig cymorth wirfoddol er mwyn cynnal a chadw'r Parc. Os hoffech chi ymuno, dewch i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol neu cysylltwch â'r golygydd neu unrhyw aelod arall o'r Pwyllgor.

**Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol** Cynhelir y CCB eleni ar ddydd Mawrth, 14 Tachwedd yng Nghanolfan Methodistaidd St Paul. Ar ôl ychydig o drafodaeth, caiff ddarlith gan William Troughton o'r enw *Aberystwyth Through Time*. Os ydych chi'n gwerthfawrogi'r Parc, dewch i'n cefnogi. Croeso i bawb!

***PARC NATUR PENGLAIS SUPPORT GROUP***



**Annual General Meeting**

***Tuesday, 14 November 2017, 7.30 pm***

*St Paul's Methodist Centre, Queens Road*

Followed by a talk

***'ABERYSTWYTH THROUGH TIME'***

*by*

***WILLIAM TROUGHTON***

*Curator*

*Llyfrgell Genedlaethol Cymru National Library of Wales*

**All Welcome**

**25 Mlynedd o PNP** Cafwyd ein blwyddiant 25 ym mis Mehefin 2017. Ry'n ni'n bwriadu dathlu hyn gyda thaith tywys trwy'r Parc yn y gwanwyn blwyddyn nesaf, gan efallai plannu coeden ar y ffordd.

**Niferoedd Ymwelwyr** (Len Kersley) Mae'r canfodyddion cudd sy'n cyfrif nifer yr ymwelwyr i PNP wedi cofnodi ychydig dros 82,000 o ymweliadau yn 2016/7, sy'n 3.5 mil yn fwy na'r flwyddyn blaenorol. Er gymhariaeth, pan ddechreuodd y cofnodion yn 2010/11, roedd 57,000 o ymweliadau. Mae'r data yn dangos yn glir mai mwy o fyfyrwyr yn defnyddio llwybrau trwy'n gwarchodfa natur i deithio rhwng neuaddau a'r dref, ond mae'r rhifau uchaf ym mis Mai, pan mae llawer o drigolion lleol yn dod i weld clychau'r gog.

**Gwobr Bagiau Tesco** (Len Kersley) Cafwyd cefnogaeth wych o'r cymuned lleol wrth i ni ymgeisio am arian bagiau gan Tesco. Yn ystod mis Mai a mis Mehefin, enillom y pleidlais yn ein siopau Tesco lleol. Mae'r gwobr £4000 yn cael ei ddefnyddio er mwyn ail-adeiladu'r Prif Lwybr sy'n rhedeg o Gornel y Cŵps i'r coedwig. Roedd erydu sylweddol wedi digwydd oherwydd llif y dŵr lawr y llwybr yn ystod glaw trwm. Dechreuwyd y gwaith yng nghanol mis Hydref o dan

arweinyddiaeth Peter Drake, gyda gwirfoddolwyr yn symud tua 10 tunell o gerrig a thrawstiau rheilffordd i'w llefydd ar hyd y prif lwybr. Mae 8 draen wedi cael eu hadeiladu i ddargyfeirio dŵr, ac mae grisiau wedi cael eu hadeiladu ar yr adran cul, lle oedd erydu wedi tarddu ar allu ymwelwyr i gerdded ar hyd y llwybr. Yn uwch I fyny, mae'r erydu ar y llwybr hir syth wedi cael ei llenwi gyda cerrig er mwyn hwyluso cerdded.




*Llwytho'r cert â cherrig er mwyn gwella'r prif lwybr at y coedwig. (Llun: David Kirby)*

**Gwelliannau Eraill i Lwybrau** (Len Kersley) Roeddem yn ffodus i gael grant werth £200 o Gronfa Elusen 10K y Cambrian News, ac hefyd grant haelionnus iawn o £1620 gan Gyngor Tref Aberystwyth, ar gyfer gwelliannau i'r llwybrau yn y Parc. Ym mis Awst, o dan arweiniad Peter Drake, adeiladwyd 25 gris newydd trwy'r coedwig wrth y mynedfa newydd i PNP ar ffordd Brynymor.

Hwyrach, gweithiodd tîm o'r Wirfoddolwyr Llwybrau Cyhoeddus Ceredigion am ddeuddydd ymhellach I ailwneud y llwybr cyswllt o Lwyn Afallon i Gornel y Cŵps. Roedd y llwybr wedi dioddef gymaint o erydu yr oedd wedi dod yn anodd gerdded ar ei hyd. Yn ystod y 4 diwrnod, cafwyd 128 awr o wirfoddoli gan 9 person gwahanol. Hefyd, gwnaethpwyd y gwaith yn gyfltyym iawn ac roedd digon o arian ar ôl i drwsio'r grisiau o Danycoed i Giât y Prifathro. Bydd Peter Drake yn arwain myfyrwyr o Wirfoddolwyr Cadwraeth Aberystwyth I wneud y gwaith ar ryw ddydd sadwrn yn ystod Mis Tachwedd.

**Cofnodion Bocsys Adar ar gyfer 2017** (Moira Convery & David Kirby) Mae'r cofnodion o'r bocsys adar yn dangos tymor nythu siomedig arall ar gyfer yr adar oedd yn defnyddio'r bocsys. Er roedd pelaon glas *(blue tits)* a phelaon glas mawr *(great tits)* wedi nythu yn 23 bocs o'r 28 oedd ar gael, roedd nifer y cywion yn isel, efallai oherwydd cyflwr wael y menywod ar ddechrau'r flwyddyn. Roedd nifer y cywion ar gyfartaledd, fel sydd yn y tabl, ychydig yn llai nag yn 2016, ond yn llawer lai nag yn y blynyddoedd blaenorol pan oedd gan lawer o deuluoedd 9 cyw neu mwy. Er roedd 2 o'r nythod pelaon glas mawr yn cynnwys mwy na 10 wy eleni, na fu'r cywion yn goroesi. Yn ogystal â'r pelaon, gwelwyd pâr o caseg wanwyn mawr brycheuog *(great spotted woodpeckers)* yn nythu yn nhwll mewn coeden cyfagos; codwyd 2 cyw.

| Aderyn | Nifer o focsys | Nifer o wyau | Cyfartaledd ar gyfer bob nyth | Nifer o gywion fu'n goroesi | Nifer o gywion a ganfodwyd yn feirw |
|---|---|---|---|---|---|
| Pela glas | 18 | 79 | 4.4 | 45 | 9 |
| Pela glas mawr | 5 | 31 | 6.2 | 20 | 3 |

Mae'r niferoedd yn y tabl yw'r ffigyrau lleiaf posibl. Pe nad oedd yn bosib cyfrif yr wyau, amcangyfrifwyd y nifer o'r nifer o gywion a welwyd. Os oedd cywion yn barod i fynd bant ar un ymweliad ac roedd nifer llai y tro nesaf, tybiwyd fod y cywion coll wedi goroesi.

**Graffiti ar Goed ar Daith drwy Goedwigoedd PNP** (Christopher Allen) Ym mis medi, gwirfoddolais i gynorthwyo Eleri Phillips ar daith drwy PNP fel rhan o'i hastudiaethau MA yn y Brifysgol, i sylwi a gwneud sylwadau am y cerfiadau coed niferus ar hyd y coedwigoedd. Cyn ddechrau ar ein taith,

talwyd sylw i faterion dioelwch hanfodol. Roedd hi wedi paratoi cyfres o gwestiynau, a gwnaeth hi recordiadau sain o fy ymatebion. A ydw i'n ystyried y cerfiadau yn waarthus? A ydyn nhw'n dargyfeirio sylw o brydferthwch naturiol y coedwig? Ydyn nhw'n pergylu'r coed neu peri heintiau iddyn nhw? Wrth i ni cerdded yn arsylwi a mwynhau'r golau trwy'r dail, cafwyd sgwrs am coed fel gartrefi I anifeiliaid ac fel adloniant i bobl. Arhosom wrth goed Lizzie, sydd bellach wedi ymsefydlu'n iawn. I orffen, roedd rhaid iddi hi weld y 2 bont pren dros yr cwm, gyda'u placiau cerrig sy'n lletya enwau 'Avarina' a 'Charles', 2 plentyn perchennog wreiddiol ystad Penglais. Wrth I ni adael y coed, daethom ar draws graffiti diweddar, oedd yn sôn am ganlyniad etholiad diweddar yn America. Roedd yn wych cael cerdded gydag Eleri ac I weld ei mwynhad o'r amgylchedd. Gobeithio bydd ein taith yn cyfrannu at ei MA.

**Diwrnod Clirio Eithin** (Paul Evans) Cafwyd llawer o waith ei wneud gan Peter Drake a Gwirfoddolwyr Cadwraeth Aberystwyth yn gynnar ym mis Hydref yn clirio eithin o ran uchaf ardal y chwarel. Mae'r gwaith rheolaidd hyn yn cadw mosaic o ardaloedd agored a thyfiant sy'n llesol i ymlysgiaid a phryfod. Gwnaeth sawl aelod o'r grŵp cefnogi a nifer o wirfoddolwyr o'r Gwirfoddolwyr Cadwraeth clirio ardal sylweddol o'r safle. Llawer o ddiolch am eu hymdrechion.



*Clirio'r eithin yn ardal uchaf y Chwarel.*
*(Llun: Katy Peat)*

**Llais y Goedwig** (Len Kersley) Gwahoddwyd i PNP cyfrannu mewn adroddiad i Lywodraeth Cymru a baratowyd gan Lais y Goedwig, grŵp sy'n cefnogi coedwigoedd cymunedol. Fel mae'n digwydd, mae ein Grŵp Cefnogaeth yn gweithredu mewn ffordd gwahanol iawn i rwpiau eraill sy'n gofalu am goedwigoedd. Mae gennym cysylltiadau gwych gyda Chyngor Ceredigion, mae ein gwariant gweinyddol o dan £50 y flwyddyn, ac rydym yn trefnu llawer o gymorth ymarferol gan wirfoddolwyr o dan arolygiaeth contractwr sydd â'r yswiriant priodol. Fel canlyniad i'r arolwg, gwahoddwyd Len Kersley i gyfarfod yr hydref Llais y Goedwig ym mis Mehefin. Gwnaeth araith am sut mae PNP yn gweithredu, ac roedd hyn yn diddorol i rwpiau eraill yng Nghymru sydd yn awyddus i ddysgu o'n profiadau.

**Arolwg ymlysgiaid** (David Kirby) 2017 oedd y trydydd flwyddyn o'n harolwg yn yr hen chwarel a'r estyniad newydd (er gellid ystyried 2015 fel arbrawf). Amcan yr arolwg oedd canfod pa ymlysgiaid sydd yno, i amcangyfrif eu dwysedd ac i weld os yw'n hymdrechion i reoli eithin yn y chwarel yn llesol iddynt. Prif dull yr arolwg oedd i osod llochesau ffug gan ddefnyddio metel rhuchog neu tôau bitiwmen. Yr ymlysgiad mwyaf niferus oedd rhuddnadroedd *(slow worms)* gyda rhai ymlusgiaid cyffredin, ond dim nadroedd. Doedd dim modd berffaith amcangyfrif dwysedd poblogaeth yr ymlusgiaid oherwydd roedd yn bosib arlsylwi ar un anifail sawl gwaith dros gyfnod yr arolwg. Amcangyfrifwyd y poblogaethau gan faint o ymlusgiaid a welwyd ar un diwrnod. Ffotograffwyd y rhan fwyaf o anifeiliaid a welwyd ac roedd ymgeisiau i ganfod eu hoedran a chenedl. Dalwyd rhai rhuddnadroedd er mwyn eu pwyso a'u mesuru. Adroddir y canlyniadau i gronfa data ymlusgiaid genedlaethol mewn amser.

Eleni, gosodwyd 13 lloches ffug yn estyniad y Parc a 23 yn y chwarel. Astudiwyd un lloches naturiol o dan cerrig hefyd. Dechreuodd yr arolwg ar 25 Mawrth, pan arsylwyd ar un llygoden gota *(vole)* ac un rhuddneidr gwrywaidd, ac fe orffenodd yr arolwg ar 6 Hydref. Astudiwyd y rhan fwyaf o lochesi

ar 15 dyddiad yn ystod y cyfnod hyn. Canfodwyd bron â phob rhuddneidr a thua hanner yr ymlusgiaid o dan llochesi. Roedd born â phob ymlusgiad yn torheulo ar ben y llochesi. Arsylwyd ar 51 rhuddneidr a 7 ymlusgiad dros y cyfnod yn/ar y lloches mwyaf poblogaidd, gyda 7 rhuddneidr ar un achlysur ym mis Mai. Uchafbwynt y flwyddyn oedd canfod pâr o ymlusgiaid oedd yn cenhedlu ym Mis Mai cynnnar. Gwelwyd ymlusgiaid a rhuddnadroedd oedd newydd cael eu geni eleni, sy'n profi bod gennym poblogaethau hyfyw o'r 2 rhywogaeth.

**Cynllun Rheoli PNP, 2017-2022** (Paul Evans)    Mae gwaith ar y gweill I gynhyrchu'r pedwarydd cynllun rheoli ar gyfer Parc Natur Penglais. Mae'r amcanion ar gyfer y cynllun yn debyg i'r rhai oedd mewn lle pan ddatganwyd fod y Parc yn Warchodfa Natur Lleol yn 1995 sef:

- Gwella cyfleusterau i bobl fwynhau'r safle'n dawel.
- Gwarchod a chynyddu'r gwerth ecolegol y coedwigoedd coll-ddail cenhenid.
- Gwella safon y tirlun a chynnal hyfywedd bywyd gwyllt yn ardal y chwarel.
- Gwella mynediad i'r cyhoedd.
- Annog trigolion lleol a grwpiau lleol i helpu rheoli'r safle
- Datblygu adnoddau addysgol y safle.

Bydd y cynllun yn cynnwys yr estyniad newydd a'r parsel o dir sy'n cysylltu'r Parc a Ffordd Brynymor. Caiff ddrafft ei chyflwyno i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol nesaf, gan ofyn am fewnbwn gan y grŵp cefnogi.



*Golygfa o'r estyniad i'r Parc gan edrych i'r gogledd tuag at y Graig Glais. (Llun: Paul Evans)*

Golygydd: Steve Cuttle (e-mail *spcuttle@btinternet.com*)

Gyda diolch i'r 'bostmyn' am ddosbarthu'r copïau print, Laurie Wright am rhoi'r cylchlythyr ar wefan y Grŵp Aberystwyth Gwyrddach ac i bwyllgor PNP am eu cyfraniadau a phrawfddarllen.

Mae'r cyfeiriad wê ar gyfer tudalen Facebook y PNP yw:

*www.facebook.com/Parc-Natur-Penglais-917579081656878/timeline/*

Bydd y cylchlythyr hyn ar gael yn ddwyieithog fel ffeil pdf ar *http://www.aber-gag.org.uk/*

Gyda diolch i Jeff Smith am y cyfieithiad Cymraeg.